

CYFARFOD	<b>Pwyllgor Archwilio a Llywodraethu</b>
DYDDIAD	<b>30 Mehefin 2022</b>
TEITL	<b>Cyfrifon Terfynol Harbyrau Gwynedd am y flwyddyn a ddaeth i ben 31 Mawrth 2022</b>
PWRPAS YR ADRODDIAD	<b>Cyflwyno –</b> <ul style="list-style-type: none"><li>• <b>Adroddiad Cyfrif Incwm a Gwariant Refeniw 2021/22, a</b></li><li>• <b>Ffurflen datganiadau cyfrifon, wedi'i ardystio, ond yn amodol ar archwiliad</b></li></ul>
AWDUR	<b>Ffion Madog Evans, Uwch Reolwr Cyllid</b>
GWEITHREDIAD	<b>Derbyn a Chymeradwyo'r Cyfrifon</b>

---

## **1. GOFYNION ADRODD HARBYRAU**

- 1.1 Yn unol â'r gofynion statudol o dan Ddeddf Harbyrau 1964 mae'n rhaid i Wunedd, fel awdurdod harbyrau, ddarparu datganiad cyfrifon blynyddol sy'n ymwneud â gweithgareddau harbwr.
- 1.2 Ystyrir Harbyrau Gwynedd, oherwydd trosiant is na £2.5m, i fod yn gorff llywodraeth leol llai o faint yn unol â'r diffiniad yn y Rheoliadau Cyfrifon ac Archwilio (Cymru) (Diwygio) 2018.
- 1.3 Ar gyfer "cyrff llywodraeth leol llai o faint", mae cwblhau ffurflen datganiadau cyfrifon a ddarparwyd gan Swyddfa Archwilio Cymru yn cwrdd â'r gofynion statudol. Bydd yn destun archwiliad ar wahân, ond nid oes rhaid cynhyrchu datganiadau ariannol statudol llawn (sy'n cydymffurfio gyda Safonau Adrodd Ariannol Rhyngwladol "IFRS").

## **2. CYFRIFON 2021-22**

- 2.1 **Cyflwynir y Cyfrif Incwm a Gwariant Refeniw am 2021-22 yma fel Atodiad A** ar ffurf adroddiad "alldro" syml.
- 2.2 **Yn Atodiad B, cyflwynir y Ffurflen Swyddogol Flynyddol am 2021/22 wedi'i gwblhau a'i ardystio gan y Swyddog Ariannol Cyfrifol**, sef Pennaeth Cyllid Cyngor Gwynedd (Dewi Aeron Morgan) fel y Swyddog Cyllid Statudol ar gyfer Harbyrau Gwynedd.

- 2.3 Mae'r cyfrifon a'r ffurflen eisoes yn destun archwiliad gan Swyddfa Archwilio Cymru, archwilwyr allanol Cyngor Gwynedd, a apwyntiwyd gan Archwilydd Cyffredinol Cymru. Os bydd angen newidiadau yn dilyn archwiliad, yna cyflwynir fersiwn diwygiedig i gyfarfod 13 Hydref 2022 o'r Pwyllgor Archwilio a Llywodraethu.
- 2.4 Ar ôl yr archwiliad ac yn dilyn unrhyw addasiadau os y bydd angen, bydd cynrychiolydd yr Archwilydd Cyffredinol yn ardystio'r ffurflen cyn 30 Tachwedd 2022.
- 2.5 Mae Atodiad A yn dangos y cyfrifon referniw yn unig tra bod y datganiadau cyfrifyddu yn Atodiad B yn cynnwys referniw a chyfalaf. Nid oedd yna unrhyw wariant cyfalaf gan Harbyrau Gwynedd yn ystod 2021/22.

### **3. ARGYMHELLIAD**

- 3.1 **Gofynnir i'r Pwyllgor Archwilio dderbyn a chymeradwyo'r wybodaeth sydd yn yr atodiadau, sef ;–**
- Cyfrif Incwm a Gwariant Referniw 2021/22 – Atodiad A
  - Ffurflen Flynyddol ar gyfer y Flwyddyn a Ddaeth i Ben 31 Mawrth 2022, yn Amodol ar Archwiliad – Atodiad B